



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

**Rheoliadau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005
(Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005**

Diben y Gorchymyn hwn yw cychwyn y rhan fwyaf o ddarpariaethau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ("y Ddeddf") a gwneud amryw o arbedion a darpariaethau trosiannol.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.7

Y pwerau a ddyfynnwyd ar gyfer gwneud y Gorchymyn yw adrannau 40 (Cychwyn), 43(1)(b) (Darpariaethau canlyniadol, trosiannol ac ati) a 44(1) (Gorchmynion, rheoliadau a chyfarwyddiadau). Mae Erthygl 4 y Gorchymyn yn cychwyn darpariaethau penodol y Ddeddf (a bennir ym mharagraff (1)) ar 12 Hydref 2005 at ddibenion gwneud gorchmynion a rheoliadau, ac, yn unol ag erthygl 5 y Gorchymyn; bydd y darpariaethau hynny fel arall yn dod i rym ar 1 Ebrill 2006. Mae'r pwr i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol wedi'i gynnwys yn adran 44(2) y Ddeddf, ac felly ystyrir y dylai'r ddarpariaeth honno fod wedi'i dyfynnu fel pwr i alluogi gwneud y Gorchymyn. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn nhestun Cymraeg erthygl 4(1), ymddengys cyfeiriad at baragraff 23 Atodlen 4 y Ddeddf yn (c) ac (ch). Eglura'r testun Saesneg y dylai fod yn (ch). [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)]

Mae erthygl 4(3)(a) y Gorchymyn yn cyfeirio at "y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) uchod", ac mae erthygl 4(3)(b) y Gorchymyn yn cyfeirio at "y diben y cyfeirir ato ym mharagraff (3) uchod". Mae is-baragraffau (a) a (b) yn rhannau o baragraff (3), felly mae'r cyfeiriad at "y cyfeirir atynt/ato ym mharagraff (3) uchod" yn amhriodol. Byddai "y cyfeirir atynt/ato uchod" yn ddigonol gan fod rhan rhagarweiniol paragraff (3) yn cynnwys y croesgyfeiriad priodol i is-baragraffau (a) a (b). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae erthygl 4(3)(a) yn mynd ymlaen i restru amryw o ddarpariaethau a fydd yn parhau mewn grym at y diben y cyfeirir ato yn is-baragraff (b), sef gwneud gorchymynion a rheoliadau. Mae adran 70(2)(b) Deddf Llywodraeth Leol 2000 ymhlith y darpariaethau hynny. Fodd bynnag, dim ond disgrifio'r defnydd y gellir ei wneud o'r pwr i wneud gorchymynion a wna'r adran honno. Mae'r pwr i wneud y gorchymyn wedi'i gynnwys yn adran 70(1), felly dylid fod wedi cyfeirio at y ddarpariaeth honno hefyd. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg erthygl 6(2)(a) yn cyfeirio at gwyn sydd "wedi cael ei gwneud yn briodol neu wedi cael ei chyfeirio at yr Ombwdsmon". Eglura adran 2(3) y Ddeddf fod "yn briodol" ("duly") yn cyfeirio at "ei chyfeirio" ("referred") yn ogystal â "ei gwneud" ("made") yn y testun Saesneg. Mae testun Cymraeg yr erthygl yn gwneud "yn briodol" yn berthnasol i "ei gwneud" yn unig ac nid i "ei chyfeirio". Mae hyn mewn cyferbyniad â pharagraff perthnasol y Nodyn Esboniadol Cymraeg lle y mae'r defnydd yn gywir. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Nid yw testun Cymraeg erthygl 6(4) yn darllen yn gywir. Mae'r geiriau "mae gan" yn berthnasol i (a) a (b) ac felly dylent ymddangos ar ddiwedd y cam rhagarweiniol yn hytrach na'u cynnwys ym mharagraff (a). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae erthygl 7(5) yn awgrymu "At ddibenion paragraff 15(1) o Atodlen 1 y flwyddyn ariannol gyntaf yw'r flwyddyn ariannol sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007." Mae paragraff 15(1) o Atodlen 1 Deddf 2005 yn nodi "For each financial year other than the first financial year, the Ombudsman must prepare an estimate of the income and expenses of his office." Yn ei dro, yn ôl paragraff 15(5) "The first financial year is the financial year during which the first person to be appointed as the Ombudsman is appointed." Felly, mater o ffaith i'w benderfynu drwy gyyfeirio at baragraff 15(5) o Atodlen 1 i Ddeddf 2005 yw beth yw'r "first financial year" yw, ac nid yw'n fater i ddarparu ar ei gyfer gan Orchymyn. Ymddengys nad oes pwr i wneud y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn erthygl 7(5). [Rheol Sefydlog 11.7(i)]

Mae Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn yn cychwyn adran 10 at bob diben. Mae adran 10 yn rhoi Atodlen 2 i'r Ddeddf ar waith, ac ni all weithredu heb Atodlen 2. Felly, dylai'r Atodlen fod wedi'i chynnwys yn yr eitem honno hefyd. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn debyg, mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn cychwyn adran 28 at bob diben. Mae adran 28 yn rhoi Atodlen 3

i'r Ddeddf ar waith, ac ni all weithredu heb Atodlen 3. Felly dylai'r Atodlen fod wedi'i chynnwys yn yr eitem honno hefyd. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Rhan 2 o Atodlen 1 yn cynnwys dwy enghraifft o iaith rhyw benodol. Yng ngholofn 2, mae eitem dau a thri yn cyfeirio at "the income and expenses of his office". Er bod deiliad presennol y swydd yn ddyn, nid yw hynny'n rheswm dros beidio â defnyddio "his or her office" mewn deddfwriaeth yn unol â'r arfer. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Nid yw testun Cymraeg y ddwy eitem yna yn adlewyrchu'r defnydd o "office" yn y testun Saesneg. [Rheol Sefydlog.7(vi)]

Ystyrir pob un o'r rhain i fod yn fân wallau drafftio neu deipograffyddol sy'n briodol eu cywiro drwy'r Memorandwm Cywiriadau.

Arsylwi

Nododd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor hefyd nifer fach o bwyntiau fformatio sy'n briodol i'w cywiro wrth gyhoeddi.

Dai Lloyd AC

Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfau

4 Hydref 2005